

Ymateb yn feirniadol i erthygl, gan roi tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o themâu sy'n gysylltiedig ag addysgu'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg.

Cyflwyniad:

Dadansodda'r pecyn hwn erthygl D W. Gwyn Lewis (2011). Teitl yr erthygl yw Addysg Ddwieithog yn yr unfed ganrif ar hugain: adolygu'r cyd-destun rhyngwladol. Arddangosa'r erthygl yn diddorol tu hwnt ar y cip olwg cyntaf gan ei fod yn targedi elfennau poeth o addysg yng Nghymru ar hyn o bryd. Wrth edrych ar y rhestr llyfryddiaeth gwelaf fod yna ymchwil helaeth wedi cael ei wneud yn y maes. Rhodda'r ymchwil eang argraff fod yr awdur wedi treilio tipyn o amser ac wedi rhoi tipyn o ymdrech i'r adroddiad. Yn ogystal a hyn, amlyca nid yw'r testun yn farn personol neu'n rhagfarnllyd tuag un agwedd neu'r llall. Elfen bwysig arall sydd werth nodi yw na ddefnyddia'r awdur gwaith ymchwil ysgolheigion eraill fwy nag unwaith. Hoffaf fod yr awdur wedi ystyried fwy nag un safbwynt yn y darn drwy beidio a chanolbwyntio a chyfyngu at un neu ddau awdur. Cyhoeddwyd y ddogfen yn 2011 a edrychir fel ymateb beirniadol i 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru'.

Yr Awdur:

I feirniadi'r erthygl yn ei gyfan, edrychaf ar yr awdur. Yn anffodus, nid oes gair oddi wrth yr awdur yn y cyflwyniad. Awgryma hyn i mi, nad yw'r awdur wir yn gwybod beth mae'n son amdano gan ni rhanna wybodaeth am ei hun a'i gefndir gyda'r darllenwr. Yn ôl fideo Cialdini (2012) gall rhannu gwybodaeth am awduron neu arbenigwyr cael effaith negyddol ar waith sy'n cael ei ddangos gan honi fod arddangos cymwysterau awdur neu berson yn gallu creu ddylanwad ar ddarllenwyr i gymryd y wybodaeth fel y gwir cywir. Yn wahannol i hyn, gellir ddadlau nid yw darllen yn swydd i ddeall bwriad awdur, mae'n cyfle i weld rhywun arall yn fewnol, ac i'w ddeall (Green, Dim dyddiad). Yn bersonol, byddaf wedi hoffi gweld braslun o'r awdur yn y pecyn gan ei fod yn haws i ddeall y ffeddylfryd tu ôl y darn ac i benderfynu os yw'r gwaith yn rhagfarnllyd a'i beidio. Darganfyddaf gwybodaeth am yr awdur ar wefan Gwerddon, Y Coleg Cymraeg Cenedleuthol. Cana'r wybodaeth hyn clychau yn fy mhen. Cadarnha'r wefan fod gan yr awdur flaenoriaethau tuag at yr iaith Gymraeg. Heriaf felly bod y wybodaeth a ddangosir yn ffafrio yr iaith Gymraeg a'r manteision sydd i'w chynnig yn hytrach na rhoi cyd-destun gwastad. Dangosa hanes yr awdur ei fod yn gweithio

ac yn ymchwilio i addysg dwyieithog, awgryma hyn dau beth i mi. Ar un llaw, gellir ddangos gwybodaeth cywir, ystyrol sy'n dangos gwybodaeth ag ymchwil dwys yn y maes sydd yn debygol iawn. Ar y llaw arall, efallai fod yr awdur o dan bwysau rhanddeiliaid i gyhoeddi gwybodaeth cadarnhaol, ysgogol, ynglyn a'r system o ddwyieithrwydd yng Nghymru fel strategaeth i sicrhau fwy o ariani yn y maes. Rhagwelaf fod y wybodaeth a chyhoeddir ar wefan Gwerddon yn ddilys ac yn ddibynadwy am y rheswm syml nid oes rheswm o gwbl ganddynt i ddweud celwydd am gefndir yr awdur.

Dwyieithrwydd:

Uwchleua'r thema o ddwyieithrwydd drwy'r erthygl gyfan gan nodi'r gair, neu fersiynau gwahannol, 112 o weithiau mewn 18 tudalen sef dros 6 o weithiau ym mhob tudalen. Amlyca'r erthygl ei ffocws yn syth gan gyfeirio at ddarpariaeth addysg dwyieithog yng Nghymru gan gysylltu ag addysg rhyngwladol. Cydnabyddia'r erthygl fod safon addysg dwyieithog yng Nghymru yn arwain y sector i Ewrop, "Defnyddio'r system addysg cyfrwng Cymraeg fel enghraifft o arfer gorau i'w hefelychu". Deallaf fod y wybodaeth wedi dyrchafi o Lywodraeth Cymru (2010) ond cwestiynaf yr honiad. Dadleuaf a yw'r erthygl yn dystiolaethu'r gwir gan fod cynlluniau diweddar y llywodraeth i waredi ail iaith fel pwnc yn gyfan gwbl (Wightwick, 2019). Yn ddiau, pe bai addysg dwyieithog Cymru yn arwain y sector, neu Ewrop, ni fydd unrhyw son am waredi'r pwnc fel y ddarparir yn bresenol yn ein hysgolion. I blethu a hyn, dangosa ymchwil The Association of School and College Leaders (ASCL, 2013) fod ysgolion yng Nghymru, cyfrwng Cymraeg, yn troi llygad ddall ac yn cofrestru disgyblion iaith cyntaf Cymraeg i arholiadau ail iaith. Ni allaf cwestiynu'r dadleuad uchod, tra'n ddisgybl mewn ysgol Cymraeg gwelais disgyblion yn gwneud hyn, nid yw'n felly rhoi syniad i ni am wir allu disgyblion yn ogystal ag arddangos y sefyllfa realistig y gallwn feirniadi'r sgil o ddwyieithrwydd yn ein gwlad.

A Ydy'r Sgil yn Gweithio?

Parha'r awdur drwy ddadlau ag yw dulliau presenol, yng nghyfnod yr erthygl, o addysg dwyieithog yn cyrhaedd safonau academiaidd uchel ac yn ddigon i sicrhau cynnydd yn ein plant ac yn ein iaith, dan yr is-bennawd "A yw'r modelau addysg ddwyieithog 'traddodiadol' yn annigonol erbyn hyn?". Diddoraf yn ystod y rhan hon gan ei fod yn defnyddio dau awdur arall fel ffynhonnell i'r trafodaethau. Cyfeirir at Gracià a Baker drwy'r rhan gan amlinelli'r pwyntiau ag arddangosir yn eu gwaith. Arweinia'r destyn i mi gredu fod y cynnwys ychydig

yn unochrog ac yn dueddu siarad am gysyniadau o ddadtlygu'r strategaeth a chadarnhau elfennau cadarnhaol o'r sgil ddwyieithrwydd. Darllena nodweddion datblygiedig i'r maes megis "The future for European bilingual education is perhaps moving away from the simplicity of typologies of bilingual education to engaging with optimal classroom dual language practices", yn bersonol, teimlaf fod yr awdur yn blaenoriaethu agweddau Gracià a Baker yn y testyn gan ei fod yn amlinelli fod angen fwy o ymchwil, arbenigaeth yw awdur.

Arsylwaf ysgrifennu gelfydd gan yr awdur yn y rhan "A yw'r modelau addysg ddwyieithog 'traddodiadol' yn annigonol erbyn hyn?" o'r erthygl gan nid yw'n ysgrifennu llawer o'i berspectif personol, defnyddia dyfyniadau i gynorthwyo'r gwaith. Defnyddia paragraffau o lyfrau awduron eraill sydd ddim wiry n casglu syniadau at ei gilydd ynglun a'r ddefnydd o ddwyieithrwydd yn ein ysgolion. Ychwanega hyn at bwyntiau uchod oherwydd drwy ddefnyddio geiriadau uniongyrchol o ffynhonnellau eraill, ar olwg cyntaf, edrycha fel dadleuad cyt-bwys ond drwy ddewis a dethol beth sy'n cael ei ddweud cynniga cyfleuon i'r awdur fynegi eu hun yn gudd, fel rhyw fath o feistr pypedau.

Ffocws ar Addysgu:

Datbyga'r awdur y sgwrs ar drywydd yr addysgu mewn ysgolion tra'n ddweud "Mae'r egwyddor o osod 'ffiniau' o gwmpas y gwahanol ieithoedd ar lawr y dosbarth wedi bod yn un amlwg yn natblygiad dulliau addysgu dwyieithog dros yr hanner can mlynedd diwethaf." Yn syml, dyma'r strategaeth rydym yn cael ein haddysgu yn y brifysgol i'w ddefnyddio mewn ysgolion felly nid wy'n sicr lle mae'r awdur yn ceisio fynd a'r trafodaeth. A ymlaen i sôn am ysgolion dwyieithog, "Thus, all schools using this bilingual teaching have a clear and explicit language policy of teaching monolingually for bilingualism". Tra'n ystyried y dyfyniadau uchod mae'n bwrpasol edrych ar farniau'r awdur am addysg yng Nghymru. Dywed: "Onid athrawon ar lawr dosbarth yw'r bobl allweddol sy'n gorfod gwneud y penderfyniadau pwysicaf". Anghytunaf a'r honiadau hyn yn llwyr. Awgryma'r honiad fod yna fai ar athrawon Cymru am ddarpariaeth ddwyieithog yn ein ysgolion. Gwela Twiselton (2003) swydd athrawon fel pobl "Whose priority was to meet the requirements of the given plan or scheme", dangosa fod gan athrawon gynllun i'w ddilyn, gan arwainiaeth yr ysgol neu'r Llywodraeth Cenedleuthol. Ni allaf eistedd a darllen honiadau fod darpariaeth yn wan ac yn cael ei addasu mewn ffordd anghywir. Nid ydyw'n gyfrifoldeb ar athrawon i ddewis beth sy'n cael ei addysgu, dyma pam yr ydym yn dilyn cwricwlwm dwys a ddarparir gan y Lywodraeth.

Cyfeiria'r awdur at y ddefnydd o drochi iaith mewn ysgolion. Dywed: "Ymarferol mewn rhai dosbarthiadau addysg drochi o ddydd i ddydd, fe geir o hyd rai agweddau 'dwyieithog' sy'n adlewyrchu tipyn mwy o hyblygrwydd nag a ddisgrifir yn y llenyddiaeth". Teimlaf fod eglurdeb a ddiffiniad y strategaeth o addysg 'trochi' yn aniben iawn oherwydd nid ydyw'n union yn benodi'r feusydd posib gellir ddefnyddio wrth addysgu'n yr ysgol. A'r awdur ymlaen i sôn am ddiriwiad drochi wrth ddweud: "Dadleuir y bydd yr unfed ganrif ar hugain yn gweld llawer mwy o ddefnyddio ieithoedd ochr yn ochr â'i gilydd yn y dosbarth". Mae'n cyfleu dadl cryf gyda'r honiad oherwydd defnyddia ystod eang o ymchwil i drosglwyddo syniadau sy'n adeiladu cysyniad cryfach i'r darllenwr. Wedi dweud hyn, yn nogfen "Y Gymraeg Mewn Addysg: Cynllun Gweithredi 2017-21" gwelir cyfeiriad uniongyrchol at drochi iaith yn ein ysgolion fel modd o ddatblygiad gwybyddol y dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2017). Gwrthgyferbynnar'r ddogfen llywodraethol gyda erthygl Lewis yn llwyr. Dadleua Lewis fod drochi iaith yn elfen sydd ar ôl eu oes ond mae'r argymhell llywodraethol yn anghytuno, ac yn sicr, fydd athrawon Cymru yn dilyn y camau Llywodraethol hyn heb droi llygaid tuag at bapur Lewis.

Casgliad D W. Gwyn Lewis:

Clo'r testyn gyda'r awdur yn crynhoi ychydig o fanylion a drafodir yn yr erthygl. Wedi dweud hyn, nid yw'r awdur yn ffocysu ac yn cau argymhellion yn daclus a chryno gan nodi, "Rhaid i ni ymateb yn briodol i'r newidiadau rydym yn eu gweld ym mhroffil ieithyddol plant". Deallaf fod yr agwedd hyn yn bwrpasol i addysg yng Nghymru ag addysg rhyngwladol gan nad yw addysgu'n sefyll yn yr unfan, mae'n agwedd ddatblygiadol (Al Mubarak, 2014).

Lawnsia'r Llywodraeth (2015) y siarter iaith i hybi'r Gymraeg mewn ysgolion ar draws Cymru. Mae'r ysgolion yn cael ei hybi i ddefnyddio'r iaith ar yr iard ac yn y cartref. Fel rhan o'r siarter mae ysgolion yn cystadlu ac yn ceisio ennill wobwr efydd, arian neu aur. Cyniga'r strategaeth ffordd i hybi'r Gymraeg mewn ffordd hwyl ond mae yna fantais arall. Drwy dilyn y ddull a chynnig gwobrau gall y llywodraeth dracio a monitro trywydd ysgolion a'i ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned.

Ysgolion Cyfrwng Saesneg Cymru:

Fel rwyf wedi nodi eisioes, mae'r syniad o ail-iaith yn agwedd mae'r llywodraeth eisiau ei waredi o'r cwricwlwm. Yn anffodus, ceir hyn effaith negyddol ar athrawon ysgolion cyfrwng Saesneg. Yng Nghwricwlwm diwigiedig i Gymru bydd ffocws ar lythrennedd fel maes dysgu yn hyrtrach na Chymraeg a Saesneg ar wahan. Yn amlwg, coda hyn broblemau i'r rhai athrawon na feithrin y Gymraeg (Price, 2018). Ond, daw eto haul ar fryn gyda sefydliad newydd Rhagoriaith, Canolfan Gwasanaethau Cymraeg ar gampws Prif Ysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Darlunia'r gwasanaeth rhaglen arbenigol, sabothol, i athrawon a chynorthwyr di-gymraeg i ddysgu'r iaith mewn blwyddyn (Rhagoriaith, 2018). Gosoda'r cyfle o feithrin a feistrioli'r iaith mewn blwyddyn targed i'w gyrhaedd a fydd yn gymorth yn natblygiadau proffesiynol yr addysgwyr.

Casgliad:

Trwy ddarllen yr erthygl ac ymchwilio ar gyfleuon i addysgwyr ym maes addysgol Saesneg yng Nghymru, gwelaf un peth yn dod i'r amlwg. Mae'n rhaid i ni, fel addysgwyr, cymryd cyfrifoldeb am yr hyn rydym yn eu wneud. Pe bawn, fel gymuned, yn tynnu at ein gilydd, gallwn cefnogi'n gilydd ar hyd y daith.

Rydym yn byw mewn gwlad sydd ar drothwy o ddatblygiad addysgiadol enfawr gyda'r ddarpariaeth o'n cwricwlwm diwigiedig, cwricwlwm i bob plentyn (Donaldson, 2015). Tra'n fyfyrio ar erthygl Lewis, rhaid I mi gyfaddef, nad wyf yn cytuno nac hyd yn oed yn gallu meddwl am fwriad eu erthygl yn ogystal a'r wybodaeth a ddarllenir. Deallaf fod amser ag ymchwil wedi cyfuno i greu'r adroddiad ond heblaw am ail-ddweud barniau unigolion penodol megis Baker a Gracià nid oes llawer o wybodaeth defnyddiol ynddo i fyfyrwr sy'n gymwyso i ddysgu.

Nid yw'n gyfrinach chwaith fod addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng saesneg yn cael ei anghofio, neu ei fod yn cael ei haddysgu i'r bwriad o'i groesu bant o'r cwricwlwm. Pan siaradir a fyfyrwyr cyfrwng saesneg, amlyca'r gwendid yn eu hiaith Gymraeg, pa gyfle sydd ganddyn? Rydym yn ffodus iawn i dderbyn hyfforddiant gloywi iaith yn y brifysgol ond teimlaf yn gryf fod angen ffocysu fwy ar grwpiau cyfrwng saesneg i wthio hwy ymlaen i allu fod yn hyderus yn yr iaith.

Geiriau: 1,920

Rhestr o Gyfeirnodau:

Al Mubarak, M. (2014) *Education System Needs to Adapt to a Fast Changing World*. Ar gael: <https://www.thenational.ae/education-system-needs-to-adapt-to-a-fast-changing-world-1.473481> (Mynediad: 21ain o Ionawr 2019).

ASCL Cymru. (2013) *Review of Welsh Second Language*. Ar gael: <https://www.ascl.org.uk/download.69AE67C6-24D0-40C4-93584D138F380E7D.html> (Mynediad 18ed o Ionawr 2019).

Baker, C. (2008), Postlude, yn *Multilingualism and Minority Languages: Achievements and Challenges in Education*, AILA Review 21, Jasone Cenoz a Durk Gorter (gol.), (Amsterdam: John Benjamins Publishing Company).

Caldini, R. (2012) *Science of Persuasion: Influenceatwork* [fideo]. Ar gael: <https://www.youtube.com/watch?v=cFdCzN7RYbw> (Mynediad: 2il o Ionawr 2019).

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Estyn (2002), *Datblygu llythrennedd deuol: Papur Trafod Estyn*, (Caerdydd: Estyn).

Green, J. (Dim dyddiad) *Good Reads*. Ar gael: <https://www.goodreads.com/quotes/750668-ultimately-it-doesn-t-matter-if-the-author-intended-a-symbol> (Mynediad: 4ydd o Ionawr 2019).

Gwerddon, Coleg Cymraeg Cenedleuthol. (Dim dyddiad) *W. Gwyn Lewis*. Ar gael: <http://www.gwerddon.cymru/en/whatisgwerddon/contributors/name-3974-en.aspx> (Mynediad: 6ed o Ionawr 2019).

Llywodraeth Cymru. (2015) *Siarter Iaith*. Ar gael: <http://cymraeg.llyw.cymru/learning/schools/SiarterIaith./?lang=cy> (Mynediad 26ain Ionawr 2019).

Llywodraeth Cymru. (2017) *Y Gymraeg Mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21*. Ar gael: https://dera.ioe.ac.uk/30902/3/171212-welsh-in-education-action-plan-2017-21-cy_Redacted.pdf (Mynediad 19ed o Ionawr 2019).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru). (www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf).

Price, M. (2018) *Education in Wales – Can the System Cope?*. Ar gael: <https://www.iwa.wales/click/2018/10/education-in-wales-can-the-system-cope/> (Mynediad 30ain o Ionawr 2019).

Rhagoriaeth. (2018) *Cyrsiau Sabothol*. Ar gael: <https://rhagoriaith.cymru/cyrsiau/cyrsiau-sabothol/> (Mynediad 1af o Chwefror 2019).

Twiselton, S.(2003) *Beyond the curriculum: learning to teach primary literacy*. Maidenhead: Open University Press.

Wightwick, A. (2019) *The Subject of Second-language Welsh is Being Abolished in Schools in Wales*. Ar gael: <https://www.walesonline.co.uk/news/education/subject-second-language-welsh-being-15693728> (Mynediad: 21ain o Ionawr 2019).